

CYNGOR TREF PORTHMADOG



COPI DRAFFT

COFNODION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL EBRILL 27 2021

PRESENNOL :- Cynghorwyr :- Gwilym Jones (Cadeirydd). Selwyn Griffiths, Ian Jones, Jason Humphreys, Aled Griffith

1. YMDDIHEURIADAU :- Nia Jeffreys, Dr Simon Brooks

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Gwilym Jones

2. Archwilio'r Cyfrifon

Ymddiheurodd y Clerc am y dyddiad anghywir ar y Rhaglen ac mai Mantolen am y flwyddyn tan 31.3.2021 oedd y Fantolen. Cafwyd y cyfrifon yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths , Cyng Ian Jones yn eilio.

3. Cyflog y Clerc.

Eglurwyd fod yn rhaid trafod cyflog y Clerc yn flynyddol ym mis Ebrill yn unol â chytundebau cyflog gan NALC/SLCC .Cafwyd eglurhad gan y Clerc lle yr oedd ei chyflog ar y raddfa argymhellwyd yn y ddogfen . Ar hyn o bryd mae cyflog y Clerc ar raddfa LC2 , SCP pwynt 24, oedd yn gweithio allan pro rata am 12 awr yr wythnos (yn ôl cytundeb y Clerc) fel £9,297.60 y flwyddyn.

Gadawodd y Clerc y cyfarfod yn ystod y drafodaeth i ddilyn.

Penderfynwyd : argymhell i'r Cyngor llawn i godi cyflog y Clerc i bwynt 25 ar y raddfa LC2 SCP i £9,590.88 y flwyddyn yn ôl yr arfer. Dim newidiadau i'r telerau/lwfansau fel arall. Bydd y mater yn mynd gerbron y Pwyllgor Llawn yng nghyfarfod mis Mai.

4. Biliau i'w talu - gwariant disgwylidig:

Awdurdodwyd y taliadau canlynol :-

1	Marian Roberts	2 lyfr receipt Cae Pawb a 12 stamp 2il ddogfen	£ 13.90
2	Cymru 1 Ltd	Costau cynnal gwefan 2020-2021	£480.00

5. Hebogwr

Canmolwyd gwaith yr hebogwr pan ymwelodd â strydoedd cefn Porthmadog yr wythnos diwethaf. Clywyd fel yr oedd yn effeithiol iawn yn gwasgaru'r gwylanod.

Penderfynwyd : y byddai'r Clerc yn trefnu efo Mr John Evans i ddychwelyd am 4 sesiwn arall fel mater o frys oherwydd gorau po gyntaf iddo orffen y gwaith cyn i'r gwylanod orffen nythu yn ôl cynnig Cyng Ian Jones, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio. Bydd y mater yn mynd gerbron y Pwyllgor Llawn yng nghyfarfod mis Mai.

6. Tendrau Gwefan

Trafodwyd y 4 cais a ddaeth i law. Gwelwyd fod rhai o'r tendrau yn gostus iawn ac mai tendr Lisa Birks oedd y rhataf. Roedd y Cyng Jason Humphreys yn awyddus i Lisa ddefnyddio'r URL Porthmadog.cymru yng nghyfeiriad newydd gwefan y Cyngor Tref.

Penderfynwyd :- derbyn tendr merch leol, Lisa Birks yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Ian Jones yn eilio. Bydd y mater yn mynd gerbron y Pwyllgor Llawn yng nghyfarfod mis Mai.

7. Diweddarau gliniadur y Cyngor Tref

Cafwyd cais gan y Clerc i ofyn i arbenigwr cyfrifiadurol lleol edrych ar gyflwr y gliniadur gyda'r bwriad o roi gwasanaeth iddo er mwyn canfod unrhyw broblemau ac er mwyn gwella ei gyflymder. Nodwyd mai rhaglen Windows 7 sydd arno a bod angen diweddarau'r feddalwedd er mwyn dal i fyny efo newidiadau a rhaglenni eraill. Os bydd yr arbenigwr yn ei gondemnio yna bydd y Clerc yn gwneud cais i brynu gliniadur newydd.

Penderfynwyd :- cefnogwyd cais y Clerc.

8. Ceisiadau Cynllunio

(a) Rhif Cais .: C21/0345/44/DT

Lleoliad: 1 Cefn Y Gader, Morfa Bychan, Porthmadog, LL49 9JA

Bwriad : Codi estyniad unllawr ar ochr ty annedd

Penderfyniad :- dim gwrthwynebiad yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

(b) Rhif Cais .: C21/0311/44/LL

Lleoliad : 1 Fisherman's Cove, Porthmadog, Porthmadog, LL49 9AS

Bwriad : Newid defnydd uned masnachol gwag i uned byw

Penderfyniad :- rhoi amodau tai fforddiadwy Cymal 106 arno yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Aled Griffith yn eilio.

(c) Rhif Cais .: C21/0312/44/LL

Lleoliad: Madog Yacht Club Pen Y Cei, Porthmadog, LL49 9AY

Bwriad: Gosod pabell dros dro (rhwng ebrill a rhagfyr 2021) ar ochr yr adeilad

Penderfyniad :- dim gwrthwynebiad ar yr amod nad yw'n amharu ar drigolion yr ardal yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio

(ch) Rhif Cais.: C21/0170/44/LL

Lleoliad /: 1 Stryd Lombard, Porthmadog, LL49 9AP

Bwriad : Newid defnydd cyn swyddfa ar lawr daear ac is lawr yr adeilad i ffurfio rhan o'r uned breswyl presennol

Penderfyniad :- rhoi amodau tai fforddiadwy Cymal 106 arno yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

